# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-17-2006)

### Dyddiad y Cyfarfod: 6 Mehefin 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
| --- | --- |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Rosemary Butler | Gorllewin Csnewydd |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
| --- | --- |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Name** | **Job Title** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Christine Gwyther, Jeff Cuthbert, Joanest Jackson

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol - LEG(2)-16-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod fersiwn electronig o Adroddiad y Pwyllgor ar yr Adolygiad ar y Rhyngrwyd ac y caiff ei argraffu ar bapur yn ddiweddarach yr wythnos hon.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

LC1290 – Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006

LC1296 – Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006

LC1300 – Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006

4.1. Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiadau gyda'i gilydd. Tynnodd sylw'r Aelodau at rai mân bwyntiau, yn cynnwys mater cymhleth, sef a ddylid cyfeirio at "TSE" yn unigol neu'n lluosog er mwyn sicrhau cysondeb.

4.2. Codywd pwynt ychwanegol -a ddylid sillafu'r term "Enceffalopathiau" gydag 'c' ac nid 's'. Cytunodd y Pwyllgor dylid cynnwys hyn yn yr adroddiad. Cam i'w gymryd: Cynghorydd Cyfreithiol/ Clerc Gyda'r ychwanegiad hwnnw, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.3. LC1301 – Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006

Cyflwynodd Mr Griffiths yr adroddiad i'r Pwyllgor. Nododd fod y fersiwn Cymraeg, trwy gamgymeriad, yn cynnwys paragraff ar reoliad 22(1) a dylai fod wedi'i ddileu fel yn y fersiwn Saesneg.

Ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol. Cam i'w gymryd: Cynghorwyr Cyfreithiol/ Clerc

4.4. LC1303 - Côd Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen 2006

Nodwyd bod y Gweinidog Busnes wedi anfon y Cod Ymarfer at y Pwyllgor Deddfau i'w ystyried am y tro cyntaf. Er nad yw Codau Ymarfer wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau o'r blaen, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu iddo eu hystyried. Nododd y Cadeirydd, er y byddai hynny yn golygu mwy o waith i'r Pwyllgor, y byddai ond yn para tan fis Mai 2007. Ar ôl hyn, cyfrifoldeb y Gweinidogion perthnasol fydd y Codau Ymarfer. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.5. Mewn perthynas â'r Rheolau Statudol a ganlyn, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1291 – Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2006

LC1295 – Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2006

LC1293 – The Plant Health (Wales) Order 2006

LC1302 – Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006

Camau i'w cymryd

4.2. LC1290 – Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006: Gofynnwyd i'r Cynghorydd Cyfreithiol ychwanegu paragraff at adroddiad y Pwyllgor yn pwysleisio y dylai'r cyfieithiad Cymraeg o'r term "Encephalopathies" gael ei sillafu gydag 'c' ac nid 's'.

4.3. LC1301 – Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006:

Gofynnwyd i'r Clerc ddileu'r paragraff ar reoliad 22(1) o'r fersiwn Cymraeg o adroddiad y Pwyllgor.

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Jenny Randerson AC, Cadeirydd y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog, wedi gwahodd y Pwyllgor Deddfau i gyflwyno tystiolaeth sy'n berthnasol i'r broses o lunio Rheolau Sefydlog newydd i'r Cynulliad. Cynnigiodd y dylid anfon Adroddiad y Pwyllgor ar yr Adolygiad fel y dystiolaeth ysgrifenedig a dywedodd y byddai'n cynnig rhoi tystiolaeth lafar ar ran y Pwyllgor hefyd. Cytunodd yr Aelodau.

5.2 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Mehefin 2006.